


Brig y Goeden



# Eflaniau a fflio

NICK WARBURTON



# Eflaniau, fflio 3

NICK WARBURTON

Lluniau gan John Rogan



**DRAKE**

## Ffwdan gyda'r fflan



“Hywel!”

Dwstiodd Mr Pywel y blawd o'i ddwylo a galw ar ei fab. Roedd Hywel, ei fab, yn pendwmpian mewn cadair yn ymyl y ffwrn fawr. Tynnodd Mr Pywel ei glust a'i ddeffro.



“Gwranda,” meddai. “Dwi eisiau iti fynd â phum fflan sticlyd, drioglyd i siop Mr Cranc.”

“Iawn, Dad,” meddai Hywel, gan ddyllyfu gên. “Siop Mr Cranc, yr ochr arall i’r afon.”

“Ie, a phaid â thin-droi a phaid â synfyfyrion neu fe a i’n honco bost. Nid yfory mae Mr Cranc eisiau’r fflaniau,” meddai. “Mae e eisiau nhw heddiw.”

“Ie, Dad,” meddai Hywel. “Gad ti hyn i fi.”

Gwthiodd y bocs fflaniau dan ei fraich ac i ffwrdd ag e am siop Mr Cranc. Cerddodd gyda glan yr afon nes iddo ddod at y bont bren. Neu, yn hytrach, daeth i’r lle yr arferai’r bont fod. A safodd yn syfrdan. Roedd y bont wedi chwalu. Roedd y rhan ganol wedi disgyn i’r afon a chael ei chario i ffwrdd.

“Nawr beth wna i?” meddai.



Daeth Mr Cranc allan o'i siop yr ochr arall  
afon a galw arno.

"Ydi fy fflaniau gen ti, Hywel?" bloeddiodd.


Edrychodd Hywel ar yr afon yn chwyrlio  
heibio ac edrychodd ar y bocs o fflaniau sticlyd,  
trioglyd.

"Maen nhw 'da fi fan hyn, Mr Cranc,"  
galwodd.

"Nid fan'na dw i eu heisiau nhw," galwodd  
Mr Cranc. "Fan hyn dw i eu heisiau nhw."

"Fedra i ddim croesi'r afon heb bont,"  
meddyliodd Hywel. Yna cafodd syniad.

"Ar fy ffordd, Mr Cranc," meddai. "Fe  
ddefnyddia i'r bocs i'm cario i a'r fflaniau drosodd.  
Byddwch yn barod amdana i."



Rhoddodd Hywel y bocs fflaniau yn y dŵr a dal ei anadl.

“Bydd hi'n ofnadwy os suddan nhw,” meddai wrtho'i hun.

Ond wnaeth y fflaniau ddim suddo. Arnofion nhw ar yr afon fel cwch bach.

“Clyfar,” meddai Hywel wrtho'i hun.



Ond y funud honno dechreuodd y bocs chwyrlïo yn y cerrynt a dechreuodd y fflaniau lifo i lawr yr afon. Yna plymiodd dyrnaid o hwyaid i'r afon ar eu holau. Gwnaeth yr hwyaid gymaint o sŵn nes i nifer o bobl ymuno â Mr Cranc yr ochr arall i'r afon. Roedden nhw am weld beth oedd achos yr holl helynt.



Rhedodd Hywel gyda glan yr afon, yn ceisio cadw'n agos at y fflaniau. Gafaelodd mewn darn o bren a llwyddodd i lywio'r bocs yn ôl i'r lan. Ond erbyn hynny, roedd yr hwyaid wedi bwyta un o'r fflaniau.

“Rhag eich cywilydd,” meddai Hywel wrth yr hwyaid. “Dim ond pedair sydd gen i ar ôl. A bydd Dad yn honco bost.”

Padlodd yr hwyaid o gwmpas, gan gadw llygad ar Hywel i weld beth fyddai'n ei wneud nesaf. Doedd gan Hywel ddim syniad beth i'w wneud, felly eisteddodd ar lan yr afon a meddwl.

Wrth iddo eistedd yno, sylwodd Hywel fod awel gref yn chwythu. Roedd yn chwythu ar draws yr afon i gyfeiriad siop Mr Cranc.

“Wrth gwrs,” meddylodd. “Fe hwylicia i nhw drosodd.”


## Dim yn glyfar iawn



Neidiodd Hywel i fyny a thynnu ei grysg. Gan ddefnyddio'r pren fel hwyllbren, gwnaeth hwyl i'r bocsg o fflaniau trioglyd. Roedd y bocsg yn eithaf soeglyd ar ôl ei daith gyntaf, felly dim ond un fflan gafodd ei hwylio gan Hywel ar yr afon.

Daliodd y gwynt yn yr hwyl-grysg a dechreuodd y bocsg symud ar draws yr afon. Clywodd Hywel bobl yn bloeddio hwrê o ochr arall yr afon. Roedd cryn dorff wedi hel at ei gilydd y tu allan i siop Mr Cranc.

Cwaciodd yr hwyaid a dechrau ymlid y bocsg. "Clyfar iawn," meddai Hywel wrtho'i hun pan oedd e hanner y ffordd ar draws.





Yna tawelodd y gwynt. Stopiodd y cwch a llusgodd crys Hywel yn y dŵr. Ceisiodd Hywel chwythu arno o'i ochr ef i'r afon ond gwyddai nad oedd hynny'n dda i ddim. Dechreuodd y bocs arnofio i ffwrdd i lawr yr afon a'r hwyaid yn padlo ar ei ôl nerth eu traed.

“O na!” gwaeddodd y dorf.



Eisteddodd Hywel a meddwl eto. Edrychodd ar y tair fflan oedd ar ôl. Yna edrychodd ar yr ochr arall i'r afon.

Roedd yn rhy bell i daflu fflan, meddyliodd, ond gallai cic ei wneud e.

“Mae'n werth ceisio,” gwaeddodd, gan neidio i'w draed.

“Mae e'n mynd i'w chicio,” bloeddiodd rhywun yn y dorf.



Rhedodd tri neu bedwar arall i wyllo.  
Daliodd Hywel un o'r fflaniau o'i flaen.  
Gollyngodd hi a swingiodd ei droed mor galed ag  
y medrai. Gwaeddodd y dorf yn gyffro i gyd a  
chyfarthodd ci bach.

Roedd yn gic mor galed nes iddi godi Hywel  
yn glir o'r llawr. Ond hedodd y fflan ddim i'r  
awyr. Gwnaeth sŵn sblat uchel a glynodd yn  
nhroed Hywel.

Chwarddodd y dorf ar ochr arall yr afon yn  
uchel.



“O diar,” meddai Hywel, gan sychu’r surop o’i frest noeth. “Rhaid imi feddwl am ffordd o gael y fflaniau ar draws yr afon heb eu chwalu gyntaf.”

Yna cofiodd ei felt elastig. Os gallai ei glymu i gangen coeden, gallai wneud catapwlt. Efallai, petai’n saethu fflan o gatapwlt, fyddai hi ddim yn chwalu.

“Clyfar iawn yn wir,” meddai wrtho’i hun.

Cymerodd rai munudau iddo glymu ei felt i goeden gyfagos. Doedd e ddim yn waith hawdd gan fod ei drowsus yn disgyn drwy’r amser. Yn y diwedd, roedd rhaid iddo eu tynnu’n gyfan gwbl. Roedd y dorf yn curo eu dwylo ac yn bloeddio hwrê wrth ei weld yn sgipio o gwmpas yn ei drôns streipiog.



Pan oedd y catapwlt yn barod, tynnodd Hywel y belt yn ôl mor bell ag yr âi. Pwysodd 'nôl yn y glaswellt i wneud hynny.

“Tri – dau – un – TANIWCH!” gwaeddodd y dorf a gollyngodd Hywel y belt.

Hedfanodd y fflan dros y dŵr fel disgen.

“Gwyliwch, Mr Cranc,” galwodd Hywel. “Mae fflan ar ei ffordd!”

Y tro hwn croesodd y fflan yr afon. Roedd yn cyhwan yn yr awyr am funud ac arhosodd y dorf yn barod i'w dal. I lawr â hi a rhedodd pawb ymlaen â'u breichiau wedi eu hestyn.

“F'un i! F'un i!” galwodd Mr Cranc.

Yna baglodd Mr Cranc dros y ci bach ac eistedd yn drwm ar y lan.

“O na,” meddai Hywel a chau ei lygaid.



Clywodd Hywel sŵn slap uchel wrth i'r fflan lanio. Yna clywodd y dorf yn bloeddio hwrê. Pan agorodd Hywel ei lygaid, roedd Mr Cranc yn eistedd yno â'r fflan ar ei ben fel het feddal.

“Peidiwch â phoeni, Mr Cranc,” galwodd Hywel. “Mae un fflan ar ôl ac rwy'n siwr y bydd yn eich cyrraedd yn iawn. Peidiwch â mynd i ffwrdd.”



Ond erbyn hyn roedd y dorf mor fawr fel na allai Mr Cranc fynd i ffwrdd hyd yn oed petai am wneud hynny.

Un cyfle olaf, meddyliodd Hywel, cyn i Dad golli ei limpyn yn llwyr.

Cododd ei drowsus a chlymu cwlwm yn y ddwy goes. Yna tynnodd ychydig o gortyn o'r pocedi. Dechreuodd ei glymu am y fflan olaf.

“Beth mae e'n ei wneud y tro hwn?” gwaeddodd dyn ar ochr arall yr afon.

## Fflan-tastig!



“Parasiwt yw e,” atebodd rhywun.

“Mae Hywel Pywel yn gwneud parasiwt â'i drowsus!”

A dyna'n union beth roedd Hywel yn ei wneud. Lapiodd y fflan yn ofalus yn ei drowsus ac estyn ei felt mor bell ag yr âi.

“TRI - DAU - UN - TANIWCH!” bloeddiodd y dorf.


I ffwrdd â'r fflan. Ochneidiodd y dorf.

“Oooh...aah!”

Dechreuodd y fflan ddisgyn o'r awyr.

Glaniodd fel carreg.

“GWYLIWCH!” gwaeddodd y dorf a gwyrdd pawb ei ben.





Yna llenwodd y trowsus ag awyr. Roedden nhw mor dew â dau falŵn a dechreuon nhw ddisgyn yn araf, gan siglo o ochr i ochr, tua'r ddaear. Glaniodd y fflan yn dyner ym mreichiau agored Mr Cranc, a bloeddiodd y dorf hwrê, hyd yn oed yn uwch.


“Mae e wedi'i gwneud hi!” bloeddiodd llais.  
 “Tair bloedd i Hywel Pywel. Hip -hip...”  
 “Hw - RÊ!”

Roedd pawb yn falch fod y fflan wedi glanio'n ddiogel. Pawb ond Hywel. Trodd ei gefn ac aeth adre yn teimlo'n flin drosto'i hun.

Pedair fflan sticlyd, drioglyd, crys a phâr o drowsus da – i gyd wedi eu colli. Dim yn glyfar o gwbl. A beth fyddai Dad yn ei ddweud?

Pan gyrhaeddodd gartref roedd Mr Pywel yn disgwyl amdano wrth ddrws y popty. Teimlai Hywel yn wirion yn sefyll yno yn ei drôns streipiog a dim arall. Edrychodd i lawr a gwelodd olion surop sticlyd ar ei frest a'i goesau.

Roedd yn siwr fod Mr Pywel ar fin mynd o'i go'n lân. Ond roedd y pobydd yn gwenu.



“Mae Mr Cranc newydd fod ar y ffôn,” meddai wrth Hywel.

“O ie,” meddai Hywel gan lyncu ei boer. “Fe alla i egluro popeth. Wir yr, fe wnes i fy ngorau glas...”

“Mae e am ddiolch iti am y fflan,” aeth Mr Pywel yn ei flaen. “Mae e'n dweud ei fod wedi cael bore godidog.”



Prin y gallai Hywel gredu ei glustiau. Roedd e mor siwr y byddai Mr Cranc yn wyllt wallgo gydag e.

“Bore godidog?” meddai.

“Ie,” meddai Mr Pywel. “Dyw e erioed wedi gweld torf debyg o’r blaen. Maen nhw wedi bod i mewn ac allan o’i siop drwy’r bore. Ac i ti mae’r diolch am y cyfan.”

“Wel,” meddai Hywel, gan wenu mewn rhyddhad pur, “fe wnes i fy ngorau glas.”

A gwenodd Mr Pywel hefyd, gan daro ei fab yn ysgafn ar ei gefn.


“Mae Mr Cranc am iti fynd â phum fflan sticlyd, ludiog ato fe yfory eto,” meddai. “Yn union fel heddiw.”



# Am yr awdur

Pan oeddwn i'n athro, roeddwn i'n mwynhau drama a darllen llyfrau'n uchel gyda phlant. Roedd hyn yn fy ysgogi i ysgrifennu ac ers hynny rwyf wedi ysgrifennu nifer o sgriptiau ar gyfer y radio, y llwyfan a'r teledu – a thri ar ddeg o lyfrau plant. Rwy'n hoffi fflaniau sticlyd, trioglyd a byns hefyd, ond fedra i ddim cofio dyfeisio unrhyw beth erioed.

Rwy'n mwynhau darllen, bron unrhyw beth sy'n ymwneud â chriced, a seiclo o gwmpas Caergrawnt, lle rydw i'n byw gyda fy nheulu.



## **Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 11:**

*Fflaniau'n Fflio* gan Nick Warburton

*Anodd eu Plesio* gan Nick Warburton

*Siwat Syr* gan Nick Warburton

*Ffion a'r Draenogod* gan John Coldwell

*Clustiau Rhyfeddol Owen Bowen* gan David Cox ac Erica James

*Cynllun Cyfrwys Sara* gan John Coldwell

*Esgidiau Ymarfer Peryglus* gan Susan Gates

*Ieu a Dei ar Waith* gan Nick Warburton

*Cewri Carys* gan Nick Warburton

*Cyfle Mawr Manon* gan John Coldwell



# Fflaniau'n fflio

Mae'n rhaid i Hywel Pywel gario pum  
fflan sticlyd, drioglyd dros yr afon i'w  
dad, y pobydd.

Mae'r bont wedi torri. Ond mae Hywel  
yn barod bob amser â chynllun clyfar.



Coeden  
Ddarllen  
Rhydychen

Cam 11

ISBN 0-86174-445-4



9 780861 744459

ISBN 0 86174 445 4

**DRAKE**